

Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hil a Chydraddoldeb 6 Gorffennaf, 2023

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac Anghydraddoldebau Iechyd gyda Muslim Doctors Cymru

Yn bresennol: John Griffiths MS, Selima Bahadur (Eyst), Abyd Quinn-Aziz (Prifysgol Caerdydd), Aderinola Omole (Eyst), Andrew Bettridge (Staff Cymorth y Senedd), Deborah Stauber (Sipsiwn-Teithwyr Cymru), Ryland Doyle (Staff Cymorth y Senedd), Gareth Lynn Montes (Cyngor Ffoaduriaid Cymru), Gethin Rhys (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), y Barnwr Ray Singh (Race Council Cymru), Riaz Hassan (Llywodraeth Cymru), Chantelle Haughton (Prifysgol Met Caerdydd), Jessica Bowen (Thinkedi), Joanne Maksymiuk-King (Race Council Cymru), Ifeoluwa Ishola (Race Council Cymru), Leila Usmani (Eyst), Dr Sibani Roy, Simon Lu (Tai Pawb), Marian Gwyn (Race Council Cymru), Farzana Mohammed (Muslim Doctors Cymru), Kasim Ramzan (Muslim Doctors Cymru), Dr Robert Moore (Prifysgol Lerpwl), Owen Jones (Staff Cymorth y Senedd), Norma Glass, Zephyr (Cymru Hong Kongers), Wanjiku Mbugua-Ngotho (Bawso)

Ymddiheuriadau: Peredur Owen Griffiths AS, Llyr Gruffydd AS

Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)

Mae John yn agor y cyfarfod ac yn croesawu pawb.

Bydd dau gyflwyniad yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol heddiw:

- Riaz Hassan, Pennaeth Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru
- Farzana a Kasim yn Muslim Doctors Cymru - yn ymwneud â gwrth hiliaeth ac anghydraddoldebau hiliol fel y maent yn berthnasol i iechyd.

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau a Threchu Tlodi - Cymunedau)

Mae Riaz yn esbonio cefndir y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys pan gafodd George Floyd ei ladd yn America, adfywiad Black Lives Matter, mwy o farwolaethau ymhlith cymunedau du ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ystod COVID-19, ac ati. Arweiniodd hyn at

y Prif Weinidog yn comisiynu grŵp cyngori lle roeddent yn edrych ar effaith COVID-19 ar bobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, adolygiad cyflym o dystiolaeth gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a sesiynau trafod trylwyr yn cynnwys cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Roedd rhyngweithio uniongyrchol rhwng llunwyr polisiau yn Llywodraeth Cymru, y bobl a gynhaliodd yr adolygiad o'r dystiolaeth a'r ymgynghoriad, a phobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Cafodd y nodau a chamau gweithredu ar gyfer y cynllun gweithredu eu cyd-gynhyrchu gan ddefnyddio unigolion â phrofiadau bywyd yn ymwneud â thai, iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, ac ati. Ar ôl drafft cyntaf y cynllun gweithredu, fe'i rhannwyd i gael mwy o adborth ac roedd 300 o bobl yn rhan o'r ymgynghoriad hwn a gyfrannodd at y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin y llynedd.

Y weledigaeth yw bod yn wrth-hiliol; mae angen i ni weithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth ystyrion i fywydau lleiafrifoedd ethnig. Mae angen inni fod yn dryloyw; mae angen i ni fod yn agored, mae angen i ni fod yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau, ac mae angen i brofiad bywyd fod yn rhan annatod nid yn unig o'r broses benderfynu ond hefyd o gyflawni nodau a chamau gweithredu'r cynllun.

Mae ffocws y nodau a'r camau gweithredu presennol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn unig, ac mae hyn pan oeddem am wirio gyda'n grwpiau ein hunain i weld y math o heriau y byddwn yn eu gweld.

Mae Riaz yn esbonio'r strwythur llywodraethu:

- Grŵp Herio Mewnol Llywodraeth Cymru - swyddogion polisiau â chyfrifoldebau atebolrwydd am nodau/camau gweithredu yn cyfarfod bob mis.
- Grŵp Atebolrwydd Allanol, 7 arbenigwr hil annibynnol wedi'u recriwtio, gydag arbenigedd mewn gwahanol feysydd megis tai, cyflogaeth, llywodraeth leol, ac ati. Cylch gwaith y Grŵp Atebolrwydd Allanol yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ar hyn o bryd yn gweithio i sefydlu'r fforymau rhanbarthol ledled Cymru, gan estyn allan i bobl o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Yn fewnol, hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn cael ei ddarparu i staff.

Mae Riaz yn parhau i roi diweddariad ar wahanol feysydd y Cynllun Gweithredu:

- Addysg – pob Prifysgol yn aelod o'r siarter cydraddoldeb hiliol. Yn cael arian gan Lywodraeth Cymru. Cymhelliant o £5000 i bob athro newydd o gefndir ethnig leiafrifol. Hefyd, soniwyd am gwricwlwm newydd.
- Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon - dyrannodd y Gweinidog 1.6 miliwn o gyllid, gan gynnwys ar gyfer cyflymu eu gwaith gwrth-hiliaeth.



- Iechyd – Ariannu Diverse Cymru i archwilio hen bolisiau gweithlu GIG Cymru drwy lens gwrth-hiliaeth. Ym maes Iechyd bydd ffocws allweddol arall ar brofiadau o brofiadau newyddenedigol pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Cartrefi a Lleoedd – cynnig lleoliadau gwaith â thâl i unigolion sy'n ddi-waith am gyfnod hir a chymunedau ac unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol – yn y cyfnod peilot ar hyn o bryd. Diwygio safonau rheoleiddio ar gyfer cymdeithasau tai i gynnwys pennu a chyflawni'r ymrwymadau o ran cydraddoldeb, yn benodol sut i fynd i'r afael â throseddau casineb. Gwneud byrddau'n fwy amrywiol a bod yn fwy cynrychioliadol. Trosedd a chyfiawnder - gweithio'n agos gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol sydd wedi datblygu eu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth eu hunain.

Ar gyfer lansiad y llynedd gwnaethom ganolbwyntio ar 11 maes polisi. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar feysydd polisi eraill ac mae'r polisiau eraill hynny yn cynnwys newid hinsawdd a'r amgylchedd mewn materion gwledig, gyda nodau a chamau gweithredu yn cael eu datblygu. Hefyd, yn ddiweddarach eleni bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithio ar y nodau a'r camau gweithredu ar gyfer y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn – ar gyfer mis Mehefin 2024 ymlaen.

Riaz yn gorffen cyflwyno ac yn diolch i John Riaz am y cyflwyniad

Sesiwn Holi ac Ateb

Abyd Quinn-Aziz

Mae'n dda iawn gweld y cynnydd. Ni chefais unrhyw synnwyr o sut y byddwn yn mesur yr hyn a gyflawnir. Fe wnaethoch sôn am y dangosfwrdd cyfiawnder troseddol, a oes pethau tebyg ar draws yr holl sectorau sy'n dangos nid eu bod yn defnyddio'r cynllun, ond y gwahaniaeth y mae'n ei wneud?

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau a Threchu Tlodi - Cymunedau)

Rydym ni'n gwneud dau beth. O ran yr atebolrwydd ar gyfer yr amryw Swyddogion Polisi o fewn Llywodraeth Cymru, mae hyn yn digwydd yn fewnol lle rydym yn mesur pob cam gweithredu. Mae'r ail beth yn digwydd ar ddwy lefel, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol tua mis Medi neu fis Hydref, a byddwn yn ei gyflwyno i'n Grŵp Atebolrwydd Allanol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n Huned Gwahaniaethau ar sail Hil.

Rydym am fesur nid yn unig y gwaith sy'n digwydd yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, (dyna'r rhan hawdd), ond hefyd fesur ein heffaith ar draws y sectorau cyhoeddus ehangach. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu fframwaith i fesur yr effaith ar draws y sectorau cyhoeddus

ehangach ac unwaith y byddwn yn sefydlu'r fframwaith hwnnw, byddwn yn ei rannu â'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn inni fesur yr effaith. Gobeithio y bydd hynny'n rhoi rhyw fath o syniad i ni o'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun.

Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)

A oes gennych chi ddealltwriaeth sylfaenol resymol felly, o ran ein man cychwyn, er mwyn mesur cynnydd yn ei erbyn?

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau & Trechu Tlodi - Cymunedau) 3

Mae gennym rywfaint o'r data a byddwn yn mesur yn erbyn y data hynny. Felly, er enghraifft, y data roeddem yn edrych arnynt yn y sectorau gofal cymdeithasol, nid oedd unrhyw ddata ar gyfer yr 20 mlynedd diwethaf. Felly mae cydweithwyr gofal cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â'r holl ardaloedd awdurdod lleol ac yn gobeithio erbyn diwedd y flwyddyn hon y bydd pob awdurdod lleol mewn sefyllfa i rannu data gyda ni, sef y dadansoddiad yn seiliedig ar ethnigrwydd. Felly, mae hynny'n rhywbeth sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Ond mae meysydd eraill lle nad oedd gennym y data, ond mae'r data hynny'n cael eu coladu ar hyn o bryd. Er enghraifft, yn ymwneud â chynrychiolaeth ar fyrddau.

FooSeng (Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru)

A oes unrhyw gynlluniau neu bolisiâu ar waith ar gyfer y deiliaid fisau Gwladolyn Prydeinig Tramor sy'n dod o Hong Kong - rydym yn eu gwahodd neu rydym yn caniatáu iddynt ddod i mewn ac yna nid oes swyddi ar eu cyfer, felly a oes cynlluniau ar eu cyfer? Ac yna beth am dai - a yw hyn i gyd yn cael ei gynllunio? Mae ganddynt rwystrau o ran iaith; mae angen iddynt ffonio'r meddyg teulu am apwyntiad, ond nid oes modd iddynt wneud hynny felly maent yn cael trafferth. A oes unrhyw gynlluniau ar sut i fynd i'r afael â hyn i gyd?

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau a Threchu Tlodi - Cymunedau)

Ar gyfer deiliaid fisa Gwladolyn Prydeinig Tramor, mae gan y Bartneriaeth Ymfudo Strategol adnoddau pwrpasol ac maent yn gweithio'n agos iawn gyda deiliaid y fisa hwnnw. Pan oeddwn yn gwneud fy rôl flaenorol fel y Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol, roedd un o'm cydweithwyr yn gweithio ar y rhaglen honno, felly mae gwaith penodol eisoes yn digwydd.

Robert Moore

Rydym wedi cael rhai o'r trafodaethau hyn o'r blaen, ond roedd y cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth yn cynnwys newid sylweddol iawn yn natblygiad polisi cyfle cyfartal.

Nawr rydym yn sôn am sut rydym yn mynd i fesur llwyddiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rwy'n credu bod gennym lawer o fesurau sydd wedi'u hetifeddu o'r traddodiad cyfle cyfartal, sydd ond yn edrych ar symptomau hiliaeth. Pa fesurau yr ydych yn eu cynllunio i ddarganfod i ba raddau y mae hiliaeth fel y cyfryw yng Nghymru wedi'i ddileu, oherwydd nid wyf yn credu bod y mesurau cyfle cyfartal traddodiadol yn ddigonol ar gyfer hynny?

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau a Threchu Tlodi - Cymunedau)

Dyna un o'r bylchau o ran gweithredu. Mae'n broblem enfawr o ran cael dealltwriaeth o'r mater. Pan sonnir am wrth-hiliaeth, mae pobl yn dal i feddwl o ran amrywiaeth, cynhwysiant, cyfle cyfartal, ac ati. Mae angen i ni weld pethau o safbwynt hollol wahanol. Mae angen i ni fynd ati'n rhagweithiol i nodi'r strwythurau a'r systemau hynny nad ydynt yn caniatáu i ni fynd i'r afael â'r gwahaniaethau.

Crybwyllwyd materion diweddar ynghylch methu â rhannu data oherwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cawsom drafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a rhai o'r arweinwyr o fewn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hynny; na ddylem fod yn cuddio tu ôl i'r ddeddfwriaeth/ein polisiau sy'n golygu na fyddwn yn gallu gwneud y gwaith sydd ei angen.

Soniais fod Uned Gwahaniaethau ar sail Hil yn gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd, gan nodi'r fframwaith, sut i fesur yr effaith. Nid ydym yn mynd i fesur y cynnydd ei hun, ond mae'n fodd o fesur effaith y gwaith.

Felly, nid oes gennyf ateb clir ar hyn o bryd, ond ar ôl i ni gael y fframwaith hwnnw gobeithio.

Wanjiku Mbugua

Rwy'n gweithio i BAWSO. Mae fy nghwestiwn yn un gweithredol iawn, Riaz, mae'n ymwneud â'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned - Sut ydych chi'n cynnal y gwaith ymgysylltu sy'n digwydd? A ydych chi'n defnyddio'r un bobl sy'n hysbys yn y cymunedau du ac ethnig leiafrifol, yr un bobl ag y buom ni'n siarad â nhw? A ydym yn bwriadu estyn allan i bobl nad ydym yn gwybod amdanynt?

Rhoddodd Wanjiku rai enghreifftiau o bobl a allai fod yn newydd i gymunedau y mae angen edrych allan amdanynt yn y gwaith ymgysylltu.

Zephyr Li

O'ch cyflwyniad, rwy'n gweld bod yr holl ddata a gasglwyd o tua mis Gorffennaf 2021.

Dechreuodd rhaglenni fisa Gwladolyn Prydeinig Tramor Hong Kong ym mis Ionawr 2021, felly ar adeg casglu'r data nid oedd y bobl o Hong Kong wedi dod i'r DU eto mewn gwirionedd.

Felly yn y ddwy flynedd a hanner hyn, mae mwy a mwy o bobl yn dod yma ac maen nhw'n wynebu gwahanol heriau ac anawsterau, hyd yn oed troseddau casineb. Felly tybed sut y gall llywodraeth leol gasglu'r wybodaeth neu ddeall y sefyllfa ddiweddaraf o ran y math hwn o beth ar gyfer y grŵp hwn o bobl. Sut allwn ni ychwanegu ein sefyllfa at y cynllun gweithredu?

Hassan, Riaz (Cydraddoldeb, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg - Cymunedau a Threchu Tlodi - Cymunedau)

Fe wna i gymryd y cwestiwn olaf yn gyntaf. Pan wnaethoch chi sôn am raglen Hong Kong, mae hynny'n rhan o waith fy nghydweithwyr mewn meysydd polisi eraill, y genedl noddfa a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Mae ganddynt adnoddau neilltuedig penodol iawn. Nid wyf wedi bod yn cymryd rhan ers i mi fod yn y rôl hon, ond pan oeddwn yn Gydgyssylltydd Cydlyniant Cymunedol, roeddwn i'n arfer mynd i'r cyfarfodydd hynny yn rheolaidd. Nid oes gennyf yr ateb llawn ond rwy'n gwybod bod y strwythur yno.

Wanjiku, gwnaethoch ofyn a oeddem yn ymwybodol pan wnaethom gyd-gynhyrchu'r cynllun gweithredu nad oeddem wedi mynd drwy'r porthgeidwaid, yr 1 neu 2 o sefydliadau penodol hynny. Mae rhan enfawr o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol nad oeddent yn cymryd rhan o'r blaen. Felly pan rwyf wedi sôn am y fforwm rhanbarthol, dyma'r prif ddull ymgysylltu i ni, byddwn yn ceisio ymgysylltu nid yn unig â'r gymuned sefydledig, ond yr holl gymunedau newydd i gydweithio'n agos â ni pan fyddwn yn cydgynhyrchu'r camau gweithredu a'r nodau ar gyfer Mehefin 2024 ymlaen.

Glamorgan House FDC Y Barnwr Ray Singh

Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn hwn nawr. Rwy'n awyddus iawn y dylid cynnwys amserlen, canlyniadau a sancsiynau - y tri phennawd hynny. Beth ydym am ei gyflawni? Erbyn pryd? Ac os na chaiff ei gyflawni, pam? A beth yw'r sancsiynau?

Fel arall bydd yn dod yn ddogfen arall a fydd yn eithaf sgleiniog ar y silff ond heb fawr o ddefnydd. Felly, mae'n gwestiwn mawr efallai yr hoffech ei gymryd yn ôl.

Riaz Hassan:

Mae gennym yr amserlenni, ac yna pwy yw'r arweinwyr a phartneriaid allweddol a fydd yn gyfrifol/atebol am bob un o'r nodau a'r camau gweithredu hynny.

Ond mae'n bwynt da iawn, iawn o ran y methiant. Os oes methiannau, ni allwn gyflawni'r ymrwymadau hynny, yna beth fyddai'n digwydd?

Soniais am y Grŵp Atebolrwydd Allanol, mae rhai aelodau yn y cyfarfod hwn ac maent yn gwbl ymwybodol. Gobeithio ar ôl i ni gyhoeddi'r adroddiad blynyddol mai dyna'r amser y byddwn yn holi ein holl swyddogion am y cyfrifoldebau yr oedd ganddynt i gyflawni nodau a chamau gweithredu penodol o fewn amserlen benodol.

Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)

Dywedodd diolch wrth Riaz a chroesawodd Kasim a Farzana o Muslim Doctors Cymru

Kasim Ramzan (Rhisga - Canolfan Feddygol Wellspring)

Doctor Kasim Ramzan ydw i, partner meddyg teulu yng Nghanolfan Feddygol Wellspring yn Rhisga, Caerffili ac rydw i hefyd yn rhan o'r clinig Canser Diagnosteg Cyflym yn Ysbyty'r Faenor. Rwy'n un o'r aelodau a sefydlodd Muslim Doctors Cymru.

Farzana Mohammed

Farzana ydw i ac rydw i'n Fferylllydd o ran cefndir, ac yn Arweinydd Fferylliaeth ar gyfer Meddygon Mwslimaidd Cymru. Rydw i wedi gweithio yn y sector ysbytai, ymarfer meddygol a hefyd ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn edrych ar anghydraddoldebau iechyd, a hynny o safbwynt fferylliaeth hefyd.

Mae llawer o'r gwaith rydym wedi'i wneud a gwaith ymgysylltu â'r cymunedau wedi'i wneud yn ein hamser ein hunain. Mae ystadegau data'r gweithlu yn dangos bod anghydraddoldebau a materion cynrychiolaeth mewn swyddi arweinyddiaeth uwch. Er bod ein cefndir yn dod o dreftadaeth De Asia, mae ein gwaith yn gynhwysol i bawb. Rydym yn gwneud ein gorau glas i gynnwys pob grŵp ffydd ac rydym yn mynd allan o'n ffordd i gynnwys pawb o gefndiroedd gwahanol ac rydym yn agored i bawb. Yr hyn nad wyf am i chi ei wneud yw deall gennym mai dim ond gyda'r cymunedau Mwslimaidd rydym yn gweithio, gan nad yw hynny'n wir.

Mae'n rhaid i ni sicrhau mynediad teg i ofal a argaeledd gwasanaethau, profiad o ofal sy'n cael ei fonitro gan foddhad cleifion a chanlyniadau, oherwydd ein bod eisiau gwell iechyd ar lefel poblogaeth i bawb sy'n rhyngweithio â'r system gofal iechyd, ac mae hynny'n cynnwys grwpiau cydraddoldeb - unrhyw un sydd â nodwedd warchoddedig, unrhyw un â statws ffoadur, unrhyw un sy'n cysgu allan, Teithwyr Sipsiwn-Roma a phobl sy'n byw yn yr ardaloedd

mwyaf difreintiedig. Fel y mae'r data'n ei ddangos, mae bwlch mewn disgwyliad oes o fewn y grwpiau hyn, ac o ran penderfynyddion ehangach iechyd, yr addysg a gewch, ansawdd y tai sydd gennych a'r gallu i brynu'r bwyd y dywedir wrthym y mae angen i chi ei gael bum gwaith y dydd, mae hynny i gyd yn effeithio ar eich profiad. Ac yna pa mor aml rydych chi'n ymgysylltu â'r system gofal iechyd.

Kasim Ramzan (Rhisga - Canolfan Feddygol Wellspring)

Mae Dr Kasim yn rhoi gwybodaeth gefndirol am sut y sefydlwyd Muslim Doctors Cymru.

Wrth i'r pandemig gyrraedd nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yma nac yn y sector iechyd wedi sylweddoli mewn gwirionedd ei fod yn mynd i effeithio arnom ni fel y gwnaeth. Dim ond meddyg teulu ydw i, does gen i ddim cymwysterau arbennig heblaw bod yn feddyg teulu. Ar ôl gwaith wrth ddod adref a chael negeseuon gan y gymuned yn ymwneud â gwybodaeth anghywir a oedd yn lledaenu. Ac roedd yn rhyfedd bod hon yn gymuned lle na fyddai unrhyw broblem o ran cysylltu â mi yng nghanol y nos am unrhyw gyngor meddygol, oherwydd rydw i wedi tyfu i fyny yn y gymuned hon ac rydym wedi mynd i'r un pethau, rydym wedi mynd i briodasau, angladdau, gweddïo gyda'n gilydd, bwyta ac ymprydio gyda'n gilydd. Yn sydyn rwy'n ateb y cwestiynau yma ac mae rhywfaint o betruster yn y gymuned. Felly, mae yna ychydig o ddiffyg ymddiriedaeth, a phob tro y byddem yn ateb un cwestiwn, fel pen Medusa, byddai pum cwestiwn arall neu fideos neu rywbeth yn ymddangos, ac roeddem yn teimlo ein bod bron â boddi.

O ran COVID, rydym wedi cynnal gweminarau mewn sawl iaith, felly rydym wedi ei wneud nid yn unig yn Saesneg, on yn Wrddw, Bangla, Cwrdeg, Arabeg a Somalieg.

Farzana Mohammed

Trafod yr astudiaeth banoramig ledled y DU a chyfrannu drwy fod yn wynebau y gellir ymddiried ynndynt a allai gysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ymgysylltu mewn gwahanol ieithoedd, fideos mewn ieithoedd cymunedol, ac ati.

Kasim Ramzan (Rhisga - Canolfan Feddygol Wellspring)

Un o'r pethau a ddysgwyd gennym oedd, pe baem yn edrych ar y gymuned Fwslimaidd yn unig, fod mosg yn ofod y gellir ymddiried ynddo ar gyfer y gymuned. Nid lle i weddïo yn unig ydyw o reidrwydd, mae llawer o bethau'n digwydd mewn mosgiau - angladdau, priodasau a chynulladau. Unwaith y llaciwyd cyfyngiadau symud y pandemig, gwelsom ein bod yn gallu defnyddio'r mosg ac roedd gan yr imamiaid rôl bwysig iawn oherwydd gallai fod llawer o dabŵs a mythau crefyddol neu ddiwylliannol yn treiddio drwy'r gymuned, fel y gwelsom yn y pandemig. Rydyn ni wedi gallu estyn allan ymhellach o'r gwaith pandemig.

Felly fe edrychon ni ar iechyd meddwl, iechyd meddwl dynion a merched ac rydyn ni wedi

bod yn cynnal ffeiriau iechyd cymunedol lle rydyn ni'n cynnig sgrinio ar gyfer pwysedd gwaed/BMI/rhythm afreolaidd ar y galon a phroffion siwgr gwaed.

Yn ystod misoedd Ramadan, un o'r problemau mawr gyda'r dyddiau hir o ymptydio yw'r effaith y gall hynny ei chael ar iechyd pobl, yn enwedig os ydynt ar feddyginiaeth neu'n ddiabetig. Rydyn ni wedi cynnig gweminarau ar Ramadan iach.

Felly'r nod rwy'n gweithio arno yng Nghasnewydd yw mynd i mewn i'r mosgiau sy'n cynnwys pobl o Bacistan yn bennaf a chynnig sgrinio ar gyfer hepatitis C, fe wnaethom nodi chwe mosg, ond er ein bod hefyd yn gwneud hynny i fanteisio ar gyfleoedd, rydym hefyd yn mynd i fod yn cyflwyno gwybodaeth am TB, gwybodaeth am ddiabetes, yn gwneud y gwiriadau pwysedd gwaed/BMI hynny a hefyd dod â sefydliadau eraill sydd am ddod i mewn.

Aeth Dr Kasim Ramzan yn ei flaen i drafod gorchmynion Na Cheisier Dadebru, meddygaeth gofal lliniarol, a diffyg dealltwriaeth o salwch angheuol.

Cyflwynodd Farzana mewn perthynas â rhoddwyr bôn-gelloedd a'r brwydrau y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i roddwyr bôn-gelloedd.

Mae arbenigedd yno, mae modd gwella, ond yr unig beth sydd ar goll yw fi a chi. Dyma pam mae ein tîm wedi penderfynu cychwyn yr ymgyrch hon i godi ymwybyddiaeth gydag ymgynghoriadau, yn enwedig yn y cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Kasim Ramzan (Rhisga - Canolfan Feddygol Wellspring)

Nid oedd y cymunedau hyn (lleiafrifoedd ethnig) yn cael eu hystyried yn rhao a oedd yn dioddef o ganlyniad i COVID, yn hytrach, fe'u cyhuddwyd o beidio â dilyn y rheolau neu o fod yn dwp i feddwl bod 5G neu sglodion mewn brechlynnau ac ati. Nid dyna oedd yn achosi petruster ynghylch y brechlyn ymhlith y cymunedau hyn. Y broblem oedd y dwyllwybodaeth gyson yr oeddent yn ei chael ar gyfryngau cymdeithasol, ac mae hynny'n rhywbeth pwysig iawn i'w wybod.

Do, gwariwyd arian ar waith adrodd. A beth ddangosodd hyn? Nid oedd yn dangos bod llawer o gymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn swyddi a oedd yn wynebu'r cyhoedd, nad oedd ganddynt y fraint o eistedd tu fewn neu o allu gweithio gartref.

Mae Dr Kasim yn esbonio manteision WhatsApp ar gyfer estyn allan i gymunedau. Peidiwch â chymryd yn ganiataol bob amser y gall pobl ddarllen ac ysgrifennu yn eu mamiaith eu hunain, yn enwedig os ydych chi'n creu deunydd darllen a allai weithiau fod wedi'i greu

drwy Google Translate neu'n rhywbeth sydd wedi'i gopiö a gludo. Rydyn ni'n cael ein haddysgu fel meddygon i ddefnyddio iaith nad yw'n arbenigol wrth esbonio unrhyw beth i bobl yn Saesneg, ond os ydych chi'n sydyn yn defnyddio terminoleg feddygol sydd mewn iaith arall, nid ydych chi'n defnyddio iaith y gall iaith rhywun arferol ei deall.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar benwythnosau, gyda'r nos, amser cinio, gwyliau blynyddol.

Y bore yma rydw i wedi gorfod cymryd gwyliau blynyddol i gymryd rhan yn y cyfarfod hwn. Rydym yn dod i'r cyfarfodydd hyn, ac mae gwahanol sefydliadau yn cysylltu bob dydd am gyngor a chymorth, ac mae disgwyliad i wneud y gwaith hwn heb gyllid.

Yn 2021 roedd erthygl yn The Independent gan y Consortiwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol Du ac Ethnig Leiafrol, sy'n cynnwys 50+ o sefydliadau gofal iechyd lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y Gymdeithas Feddygol Iddewig, y Gymdeithas Meddygon Mwslimaidd, Nyrsys y Gymanwlad, Diaspora UK, British Islamic Medicine, y Gymdeithas Feddygol. Mae'r rhain yn sefydliadau mawr. Rydym yn dal i fod ar gam cynnar a'r hyn a ddywedwyd ganddynt oedd bod yna dreth ddiwylliannol y mae staff o leiafrifoedd ethnig yn ei hwynebu am eu bod yn gynrychiolwyr eu grŵp ethnig ar gyfer rhai materion, ond nad ydynt yn cael eu talu am y tasgau hyn.

Rydw i wedi adnabod John ers sawl blwyddyn bellach, ac rwy'n teimlo'n eithaf anghyfforddus dim ond drwy gynnwys hyn. Roeddwn i'n teimlo'n nerfus ac yn ofnus. Mae yna hefyd ofn yn ein plith ynghylch colli'r gefnogaeth. Nid ydym am golli'r gwaith rydym yn ei wneud, felly nid ydym yn gofyn am gyllid. Nid ydym yn gofyn am daliad. Nid ydym yn gofyn am unrhyw beth. Soniais amdano unwaith yn y Prosiect Hepatitis, sy'n brosiect enfawr, a dywedon nhw 'bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi' ac roeddwn i'n teimlo cywilydd am ofyn hyd yn oed. Beth am ein hintegreiddio i'ch strategaethau?

Gallwn i fod yn gwneud hyn o ddydd Llun i ddydd Gwener a gallwn roi llawer mwy.

Gallwn i wneud gwaith llawer gwell, mwy effeithlon, ond ar hyn o bryd mae'n fater o geisio ymateb i e-byst yn ystod amser cinio neu ar y penwythnos. Neu o ddweud a allwn ni wneud y clinig hwn ar ddydd Sul os gwelwch yn dda oherwydd ni allaf ei wneud o ddydd Llun i ddydd Gwener oherwydd mae'n rhaid i mi wneud fy ngwaith arferol? Rydym wedi gwneud hyn ers tair blynedd heb arian, nid wyf am iddo ymddangos yn rhywbeth sy'n ymwneud ag arian. Byddwn yn parhau i wneud cymaint ag y gallwn, ond fe fydd adegau pan fydd yn rhaid i ni ddweud na, ac nid ydym wedi gwneud hynny hyd yn hyn.

Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)

iawn, diolch yn fawr iawn, Kasim a Farzana. Mae wedi bod yn wych gweithio gyda chi a Muslim Doctors Cymru. Rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud hyn tua'r dyfodol wrth i'ch gweithgareddau dyfu a datblygu a gwneud cyfraniad sylweddol iawn i'r ymdrech gyffredinol i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a gwahaniaethu a rhagfarn.

Moore, Robert

Hoffwn ategu'r pwynt hwnnw a wnaed am y disgwyliadau i bobl sy'n gweithio'n galed wneud pethau am ddim. Mae'n digwydd dro ar ôl tro, ac mae'n hynod anodd weithiau sicrhau cynrychiolaeth briodol ar bwylgorau ac yn y blaen.

Os bydd yn rhaid i bobl gymryd amser i ffwrdd o'u gwaith a cholli cyflog er mwyn ei wneud, mae'n ymddangos i mi ei bod yn aml yn ofynnol neu'n ddisgwyliedig i bobl o leiafrifoedd o bob math roi cymorth i gefnogi'r cyhoedd a'r sector statudol, ac mae gwir angen edrych ar hynny'n ofalus iawn.

Griffiths, John (Aelod o'r Senedd)

Diolch yn fawr iawn am hynny, Robert ac rwy'n siŵr eich bod yn iawn oherwydd rwy'n gwybod hynny, fel y dywedodd Kasim, ac rwy'n gwybod bod ymagwedd gyffredinol Muslim Doctors Cymru yn dangos eu bod yn hael iawn, iawn gyda'u hamser a'u hymdrechion a'u gwaith. Ond mater o gynaliadwyedd ydyw, ondife? A sut y gellir cynnal unrhyw ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol, ac mae angen iddo fod yn fwy sefydliadol yn hynny o beth.

John yn diolch i'r rhai a oedd yn bresennol ac yn cloi'r cyfarfod.